Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Celf a Dylunio/Dylunio a Thechnoleg Uwchradd.

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad i astudio rhaglen TAR Celf a Dylunio/Dylunio a Thechnoleg Uwchradd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd - rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â chi ac i glywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig fel darpar athro Celf a Dylunio/Dylunio a Thechnoleg uwchradd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y bydd gofyn i chi ei wneud ar ddiwrnod y cyfweliad, ac mae hefyd yn rhoi syniad clir i chi o'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Celf a Dylunio/Dylunio a Thechnoleg. Mae wedi cael ei lunio i'ch helpu i baratoi'n briodol fel bod gennych y siawns orau i lwyddo.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweld, ac mae'n bosibl na chânt eu cynnal yn y drefn a nodir.

Rhan 1

Byddwch yn cwblhau profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd a fydd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol, er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg. Byddwch yn derbyn yr erthygl hon cyn y diwrnod i baratoi, felly manteisiwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2
Trafodaeth am eich Portffolio Unigol - 10 munud: Adolygiad o'ch portffolio a sut y gellir addasu'r sgiliau hyn ar gyfer ystafell ddosbarth yr 21ain Ganrif.

Bydd gofyn i chi drafod y gwaith mwyaf diweddar yn eich portffolio a'r dulliau addysgu a dysgu rydych wedi cael profiad ohonynt ac sydd wedi bod o gymorth i chi a'ch ysbrydoli i gyrraedd y pwynt hwn. Gallwch ddefnyddio sgript neu nodiadau i'ch helpu yn ystod y cyflwyniad hwn.

Bydd cyfle i chi ateb cwestiynau ar ddiwedd eich cyflwyniad – cyfle i rannu barn a syniadau!

Byddwn yn disgwyl i chi wneud y canlynol:

- ynganu / mynegi syniadau a gwybodaeth yn glir;
- cyfathrebu'n hyderus gan ennyn diddordeb gwrandawyr;
- dangos arbenigedd a phrofiad mewn pwnc;
- dangos potensial i allu defnyddio eich gwybodaeth am y pwnc mewn cyd-destun addysgu a dysgu;
- ymateb yn effeithiol i gwestiynau;
- dangos lefel dda o waith paratoi.

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweliad unigol byr lle y gallwch egluro'ch rhesymau dros ddod yn athro Celf a Dylunio/Dylunio a Thechnoleg uwchradd, a dangos eich dealltwriaeth o rôl yr athro mewn lleoliad ysgol brif ffrwd. Bydd cyfle gennych hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud penderfyniad hyddysg. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sôn am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd, gan fod llawer gennym i'w gynnig i ddarpar athrawon dan hyfforddiant brwdfrydig ac rydym ni, fel chi, yn llawn cyffro am y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn eich cyfweliad a dymunwn yn dda i chi ar gyfer y diwrnod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd 15 munud cyn eich amser dynodedig fel y gallwn ddechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Jason Davies
Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Celf a Dylunio, Dylunio a Thechnoleg a TGCh a Chyfrifiadureg
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

TEF Silver Teaching Excellence Framework

FfRhA Arian Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Met Caerdydd yw'r darparwr mwyaf ar gyfer y cwrs TAR Uwchradd yng Nghymru ac un o'r darparwyr mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn un o ddim ond pedair prifysgol a fydd yn derbyn achrediad ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019. https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu-aga/darparwyr-addysg-gychwynnol-athrawon-yng-nghymru-o-2019.html

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cwrs yn http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion

Postgraduate Taught Experience Survey

Ansawdd addysgu a dysgu 90%

Boddhad â'r cwrs 92%

Boddhad â'r lleoliadau mewn ysgolion 98%

Cyfradd llwyddo 100%

Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn dod o hyd i waith yn y sector (arolwg DHLE 16/17)